At Benaethiaid holl ysgolion Babanod, Plant Iau, Cynradd ac Arbennig

16 Tachwedd 2016

Annwyl Bennaeth

Gofynion Statudol Addysg Grefyddol

Mae Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (SACRE) wedi gofyn i mi dynnu eich sylw at ofynion statudol Addysg Grefyddol mewn ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth. Wrth i'r adolygiad o'r cwricwlwm gael ei gynnal credir bod rhai ysgolion yn ddryslyd o ran statws maes llafur a gytunwyd mewn ysgolion.

Fel y gwyddoch rwy'n siŵr, mae Addysg Grefyddol yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ac felly nid yw'n dod o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r cwricwlwm Addysg Grefyddol yn cael ei bennu'n lleol gan yr ALl a'i SACRE. Mae hyn yn golygu bod yna ofyniad statudol i Awdurdodau Lleol ddarparu Addysg Grefyddol yn unol â maes llafur y cytunwyd arno. O safbwynt sefyllfa maes llafur y cytunwyd arno i Gonwy cafodd ei ail-fabwysiadu yn 2013 ac felly mae'r maes llafur presennol yn parhau gyda dealltwriaeth y bydd y maes llafur yn cael ei adolygu unwaith y bydd ffurf cwricwlwm newydd Donaldson wedi'i ddiffinio. Byddai angen newid mewn deddfwriaeth ar gyfer darparu Addysg Grefyddol yn ôl maes llafur y cytunwyd arno i gael ei ddiddymu.

Roedd adroddiad yr Athro Donaldson *Dyfodol Disglair – Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Cwricwlwm ac Asesiad yng Nghymru* yn argymell *y dylai addysg grefyddol ffurfio rhan o'r Maes Dyniaethau Dysgu a Phrofiad, a dylai barhau'n ofyniad cwricwlwm statudol o'r oed derbyn.*

Mae SACRE yn ymwybodol bod yr ysgolion arloesol nawr yn cyfarfod er mwyn datblygu'r cwricwlwm newydd. Hyd nes bydd manylion yr AOLE wedi eu ffurfio ac adolygiad o'r maes llafur y cytunwyd arno yn cael ei gynnal yna mae SACRE yn dymuno sicrhau bod ysgolion yn deall bod **cynnwys rhaglenni astudio'r maes llafur y cytunwyd arno'n lleol yn brif ofyniad statudol.**

Amgaeaf gopi o'r maes llafur presennol y cytunwyd arno ar gyfer Addysg Grefyddol a gellir dod o hyd i raglenni astudio ar gyfer CA2 ar dudalennau 18-19 o'r maes llafur y cytunwyd arno.

O safbwynt y **Cyfnod Sylfaen**, mae tri maes eang Pobl, Credoau a Chwestiynau yn cael eu hastudio. Gweler tudalennau 14-17 o'r maes llafur y cytunwyd arno.

Mae SACRE yn gofyn i ysgolion gadarnhau eu bod wedi derbyn y wybodaeth hon drwy gwblhau'r pro forma atodedig a'i ddychwelyd i mi,
philiplord@gwegogledd.cymru

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Cofion a dymuniadau gorau

Phil Lord